Y Treigladau

treiglad trwynol
ar ôl 'fy' + 'yn' ▼

fy mhen i
fy nhraed i
fy nghoes i
fy mraich i
fy nannedd i
fy ngwallt i
ym Mhontypridd
yn Nhonypandy
yng Nghaerdydd
ym Mangor
yn Ninas Powys
yng Ngwent

Meddal	Trwynol	Llaes
p > b	p > mh	p > ph
t > d	t > nh	t > th
c > g	c > ngh	c > ch
b > f	b > m	
d > dd	d > n	
g >	g > ng	
m > f		
ll > l		
rh > r		

ei phen hi | ei thraed hi | ei choes hi | tra phwysig

gyda phlant | ◄*Mae* **treiglad llaes** *ar ôl:*► | â phlant

halen a phupur | gwell na thywydd ddoe

tua phump o'r gloch | tri thiwtor | chwe thiwtor

Treiglad cymysg: *llaes gyda t/c/p ond meddal gyda d/g/b/m/ll/rh*

Thalodd hi ddim biliau – fwytodd hi ddim bwyd

Y dyn na phrynodd fara - Y ferch na fwytodd fara

Treiglad meddal ▼

am ar at gan heb hyd i o tan tros trwy wrth

dacw ddyn | dyma berson | dyna le | wele ferch

hen ŵr, prif fynedfa, hoff liw

mor wyn â'r galchen | Y dyn a welais i

cyn goched â thân | dau fab, dwy ferch, ail law

rhaid i fi fynd, gwell i fi fynd, ar ôl i fi fynd, cyn i fi fynd

ei ben e, ei draed e, ei goes e, ei fraich e, ei ddant e, ei wallt e, ei figwrn e, ei lais e

Dw i'n dod o Gaerdydd

Gyda'r cwestiwn: Welaist ti'r ffilm? Brynaist ti docyn? Gollaist ti dy ffordd?

ansoddair enw benywaidd: noswaith dda | Dw i'n mynd i Fangor | Ar ôl 'un' benywaidd: un gadair | Ar ôl 'y' benywaidd: y bont

Ar ôl ffurf gryno'r ferf: darllenais i lyfr, ces i frechdan, prynais i gylchgrawn, gwelais i ddrama, gwerthais i dŷ